CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: clerc@cyngorcymunedllanengan.cymru
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Medi 7fed, 2018

Annwyl Aelod,

Gwysir chi i fod yn bresennol yng Nghyfarfod Misol y Cyngor **nos Fercher, Medi 12fed, 2018** yng Nghanolfan Llanengan am saith o'r gloch.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)
4. Cadarnhau Cofnodion – Gorffennaf 18fed, 2018
5. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhestr drosodd)
6. Cyfethol Aelodau i Wardiau Aber-soch a Llanengan
7. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**:
   i) 5a) Toiledau Cyhoeddus
   ii) 5b) Meddygfa Aber-soch
   iii) 5c) 10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith*
   iv) 5ch) 10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru: vi) Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref
8. **Mynwent** – Barbio Clawdd Terfyn y Bwlch; Cais am osod Mainc
9. **Caeau Chwarae –** Amcanbrisiau Offer; Adroddiad Archwiliad Iechyd a Diogelwch
10. **Cyfrifon –** Cyflog y Clerc; Archwiliad Ariannol Allanol 2017 – 2018; Penodi Archwiliwr Mewnol 2018 – 2019; Wayleave Harbour Hotel, Aber-soch; Adnewyddu Yswiriant y Cyngor; Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Adroddiad y Clerc o Gynhadledd Cymdeithas y Clercod – SLCC); Cyfeirlyfr Charles Arnold Baker
11. **Materion Cynllunio** – Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth; Stád Cornwall, Mynytho; Ymarferiad Ffordd Gwynedd a'r Gwasanaeth Cynllunio; Cymorth Cynllunio Cymru: a) Ymateb i Geisiadau Cynllunio a Gwneud y Mwyaf o'ch Dylanwad; b) Deall Ardoll Seilwaith Cymunedol a Chyfraniadau 106; c) Newyddlen mis Awst; Apeliadau Cynllunio 28 Tan-y-Gaer, Aber-soch a Thy'n y Cae, Llangian
12. **Materion Priffyrdd a Bwrdeistrefol** – Torri Gwair Ochr y Ffordd; Rhaglen Waith mis Medi; Biniau Halen; Gorchymyn Cyngor Gwynedd – Digwyddiadau Arbennig (Hanner Marathon Aber-soch)

13. **Materion Hawliau Tramwy** – Torri'r Llwybrau; ScottishPower – Torri/Tocio Coed ar Lwybrau Cyhoeddus;
14. **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) –** Adroddiad y Clerc o Gynhadledd Cymdeithas y Clercod (SLCC)
15. **Gohebiaeth**:
    a) ***Un Llais Cymru (ULlC)*** – Bwletinau mis Gorffennaf ac Awst; Ymgynghoriad Cefnogi a Hybu'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r Cyd-destun Deddfwriaethol, Polisi ac Ehangach; Cynigion ar gyfer Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol; Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor; Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru; Hyfforddiant yn Llangefni
    b) Steven Ward – Geocache Porth Neigwl
    c) Sarah Griffith – Tŷ Fforddiadwy ar Werth yn Aber-soch
16. Dyfarniadau Cynllunio
17. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
18. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Hydref 12fed, 2018

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU CYNLLUNIO I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD MIS MEDI

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C18/0714/39/LL	Estyniadau unllawr ochr a chefn – **Bryn Melyn, Mynytho**
2	C18/0716/39/LL	Codi porth, estyniad modurdy a ffenestri gromen blaen – **Wheelhouse, Lôn Sarn Bach, Aber-soch**
3	C18/0774/39/LL	Estyniad unllawr ochr yn cynnwys newidiadau i'r wal derfyn – **Island View, Aber-soch**

CEISIADAU CYNLLUNIO MIS AWST
(Gweler sylwadau a gyflwynwyd eisoes)

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C18/0602/39/LL	Adeiladu porth i'r blaen – 2 Tan y Gaer, Aber-soch **– Cefnogir**
2	C18/0633/39/CC	Tocio coeden mewn Ardal Gadwraeth – Bodengan, Llanengan **[Derbyniwyd dyfarniad eisoes – Caniatawyd yn ddi-amodol]**
3	C18/0650/39/LL	Mân newidiadau i'r prif edrychiad, ailadeiladu strwythur 'lean to' i'r ochr, trosi modurdy i ffurfio rhan o'r tŷ ac ychwanegu ffenestr gromen i'r edrychiad cefn – Talfor, Mynytho **– Cefnogir**
4	C18/0677/39/LL	Estyniad unllawr – Tŷ Newydd, Mynytho **– Cefnogir**
5	C18/0696/39/LL	Estyniad deulawr ochr – Tŷ Uchaf, Mynytho – **Cefnogir**
6	C18/0713/39/LL	Estyniad deulawr ochr â ffenestr gromen, estyniad deulawr cefn, estyniad unllawr blaen â balconi uwchben ac addasiadau allanol i ffenestri – Pen y Gwaith Cottage, Machros, Bwlchtocyn **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad sylweddol o 'fwthyn' hanesyddol yn AHNE Llŷn ac ar gyrion Llwybr yr Arfordir**
7	C18/0715/39/LL **[Datgan Diddordeb – Clerc]**	Estyniad deulawr gromen, ffenestr gromen a balconi i'r blaen ac estyniad unllawr blaen i'r modurdy presennol ac addasiadau allanol i'r eiddo – 68 Cae Du, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad o safle cyfyng, anghymarus â'r tai yn yn yr un rhes ac y buasai'n goredrych cymdogion**
8	C18/0718/39/LL	Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd Cynllunio C17/1161/39/LL er diwygio dyfnder y balconi o 1.5 medr i 2.5 medr – Tir ger Tŷ Adda, Aber-soch **– Cedwir at yr un sylwadau a gyflwynwyd â'r ceisiadau blaenorol, sef gwrthwynebir oherwydd fod y balconi'n goredrych cymdogion ac mae'n sylweddol fwy na'r un yn y cais gwreiddiol**